# Profiad menywod o'r daith wleidyddol yng Nghymru



Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru | 2026

WEN Wales Cymru

## Cyflwyniad

Cymru oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i gael cydbwysedd rhywedd, a hynny yn 2003, ond nid oes unrhyw etholiad i'r Senedd ers hynny wedi llwyddo i gael cynrychiolaeth gyfartal. Mae menywod, yn enwedig rhai o grwpiau ymylol, yn dal i gael eu tangynrychioli mewn gwleidyddiaeth ar bob lefel. Mae gan bleidiau gwleidyddol ran allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â hyn.

Mae menywod yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol, gan gynnwys llai o fynediad at rwydweithiau, costau personol uwch, a mwy o amlygiad i gamdriniaeth ar-lein. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn golygu nad yw'r llwybr i ddod yn ymgeisydd yr un fath i bawb, a bydd yr annhegwch yn parhau oni rown gefnogaeth wedi'i dargedu. Gall diwylliant, strategaeth a dulliau'r pleidiau gael dylanwad cryf ar y tebygolrwydd y bydd menywod yn cymryd rhan yn wleidyddol, yn cael cyfle cyfartal i gael eu dewis neu eu hethol, ac yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig yr un mor effeithiol a diogel â'u cymheiriaid gwrywaidd.

Mae ein gwaith ymchwil ar brofiadau menywod o'r daith wleidyddol yng Nghymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd parhaus hyn. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar gyfres o gyfweliadau un-i-un manwl a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref 2025 â menywod o'r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru. Fe wnaethom siarad â menywod ar wahanol gamau o'u teithiau gwleidyddol, o'r rhai yng nghamau cynnar eu gyrfa hyd at y rhai mewn swyddi gwleidyddol uwch. Roedd y cyfweliadau yn casglu gwybodaeth am brofiadau yng nghyd-destunau San Steffan, y Senedd, a llywodraeth leol.

**Mae ein hadroddiad yn dangos:**

- **Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ar draws y system wleidyddol yng Nghymru**. Ar hyn o bryd, mae 43% o holl Aelodau'r Senedd yn fenywod, gyda gwahaniaethau sylweddol rhwng y pleidiau. Ar lefel llywodraeth leol, roedd nifer y menywod a etholwyd ar draws y pleidiau yn amrywio o 29% i 44%.

- **Mae mentora a hyfforddiant yn hynod werthfawr, ond yn aml mae'n anghyson**. Fe wnaeth menywod ar draws y pleidiau dynnu sylw at gymysgedd o brofiadau cadarnhaol a mannau lle'r oedd bylchau. Fe wnaeth rhai ddisgrifio sesiynau hyfforddi ffurfiol, rhwydweithiau cymorth anffurfiol a chydweithwyr profiadol a wnaeth eu rhoi ar ben ffordd, gan ddweud eu bod yn hynod werthfawr.

Soniodd eraill am welliannau diweddar o ran hyfforddiant ac arweiniad, yn ogystal â mentrau cefnogol dan arweiniad gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae mynediad at y cyfleoedd hyn dal yn anghyson, gan adael llawer o ymgeiswyr newydd yn teimlo'n ynysig. Mae cysylltiadau agos rhwng diffyg mentora strwythuredig a hyder isel a syndrom y ffugiwr (impostor syndrome), yn enwedig i fenywod o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli.

- **Mae cyfrifoldebau gofalu yn rhwystr mawr i gyfranogiad gwleidyddol.** Clywyd adroddiadau am ohirio uchelgeisiau gwleidyddol oherwydd ymrwymiadau gofal plant a domestig, gydag effaith anghymesur ar rieni sengl. Dywedodd rhai fod trefniadau cyfarfod hyblyg a grwpiau lleol ystyriol yn ei gwneud yn haws i gyfrannu. Er gwaethaf y pethau cadarnhaol hyn, mae cymorth gofal plant ffurfiol, gan gynnwys cyfleusterau crèche ar safle, yn parhau i fod yn absennol i raddau helaeth, ac mae hynny'n cyfrannu at straen emosiynol, costau ariannol a niwed gyrfa.

- **Mae rhwystrau ariannol yn atal menywod rhag dewis gyrfaoedd gwleidyddol.** Mae costau sy'n gysylltiedig ag ymgyrchu, mynd i ddigwyddiadau neu gymryd gwyliau di-dâl yn cael effaith anghymesur ar fenywod, yn enwedig y rhai sy'n cydbwyso cyfrifoldebau gofalu. Tynnodd rhai ymgeiswyr sylw at enghreifftiau cadarnhaol, megis grantiau bach, cymorth dewisol neu ymdrechion codi arian lleol, a helpodd i wrthbwyso pwysau ariannol, ond roedd y rhain yn parhau i fod yn anghyson. Mae angen mwy o dryloywder a chefnogaeth ariannol deg i sicrhau bod dewisiadau yn adlewyrchu teilyngdod yn hytrach nag adnoddau.

- **Mae aflonyddu a bwlio yn parhau i fod yn bryderon mawr.** Soniodd cyfranogwyr am brofiadau o gael eu haflonyddu ar y cyfryngau cymdeithasol ac am fwlio yn y gweithle, a bod gweithdrefnau ar gyfer adrodd a rheoli cwynion yn aml yn aneglur. Roedd hyn yn cael effaith ar fenywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a menywod ifanc yn arbennig. Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn cydnabod datblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys prosesau mewnol cryfach, gwell canllawiau a llwybrau adrodd mwy eglur, gan ddangos cynnydd mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae dal angen am amddiffyniad a hyfforddiant rhagweithiol a chyson.

- **Mae gwahaniaethu rhyngblethol yn creu rhwystrau ychwanegol.** Mae menywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, cymunedau mudol, menywod anabl, menywod hŷn a menywod LHDTC+ yn wynebu heriau cymhleth, gan gynnwys bregusrwydd o

gael eu cam-drin ar-lein, dryswch ynghylch cymhwysedd, diwylliannau sy'n eithrio a mwy o graffu arnyn nhw. Fe wnaeth rhai ddisgrifio rwydweithiau cefnogol, gan gynnwys fforymau menywod, grwpiau LHDTC+ a chymunedau cyfoedion anffurfiol a helpodd nhw i lywio'r heriau hyn. Fodd bynnag, mae rhwystrau rhyngblethol yn parhau i gyfyngu ar gyfranogiad ac ar hyder mewn swyddi gwleidyddol.

Rhaid gweithredu ar draws **pedwar maes allweddol** i fynd i'r afael â'r heriau hyn:

- **Cyfrifoldebau gofalu**: cymorth â gofal plant, bwrsarïau, gweithio hyblyg, ac opsiynau rhannu swyddi.
- **Aflonyddu a bwlio**: gweithdrefnau adrodd clir, cymorth cyfreithiol a chwnsela, hyfforddiant diogelwch ar-lein, a hyfforddiant cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu gorfodol.
- **Rhwystrau ariannol**: tryloywder, bwrsarïau, cymorth codi arian, a strategaethau ad-dalu cynhwysol
- **Mentora a hyfforddiant**: rhaglenni strwythuredig, gwylio pobl wrth eu gwaith, cymorth gan gymheiriaid, a chanllawiau clir.

Nod y gwaith ymchwil yw cefnogi pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi ac i gryfhau eu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant, ac i dynnu sylw at y newidiadau a ddylai ddigwydd o fewn pleidiau i greu diwylliannau mwy cynhwysol, i gael gwared ar rwystrau rhag gyfranogiad, ac i sicrhau bod cynrychiolaeth wleidyddol yn adlewyrchu amrywiaeth lawn Cymru.

## Cefndir

Y Senedd oedd y ddeddfwrfa gyntaf i gael cydbwysedd rhywedd, a hynny yn 2003, gan dorri tir newydd ar gyfer cynrychiolaeth menywod yn fyd-eang. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond 43% o'i aelodau sydd yn fenywod. Yn sgil tynnu Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn ôl, mae perygl y gallai'r Senedd nesaf gynnwys y lefel isaf o gynrychiolaeth menywod ers datganoli. Er bod y gwaith o ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiad 2026 wedi hen ddechrau, mae'n hanfodol bod pob plaid yn cymryd camau pendant i atal rhagor o lithro'n ôl.

Yn dilyn lansiad Pecyn Cymorth Cynrychiolaeth Amrywiol a Chyfartal RhCM Cymru a 5050Amrywiol ym mis Mai 2025, rydym wedi cynnal sgyrsiau manwl gyda menywod o wahanol gefndiroedd a phleidiau gwleidyddol yn ystod gwahanol gyfnodau o'u taith wleidyddol. Mae ein hadroddiad yn dangos yr heriau sy'n wynebu menywod o hyd, ac mae hefyd yn tynnu sylw at arferion gorau ac atebion ymarferol y gall pleidiau eu mabwysiadu i gefnogi ymgeiswyr benywaidd yn y cyfnod cyn etholiadau 2026 a thu hwnt.

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfres o 23 cyfweliad manwl, un-i-un a gynhaliwyd rhwng Medi a Hydref 2025. Roedd deg o'r cyfranogwyr yn gysylltiedig â Llafur Cymru, chwech â Phlaid Cymru, tri â'r Ceidwadwyr Cymreig, ac un â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Roedd y tri arall yn gysylltiedig â phleidiau llai neu'n sefyll fel annibynwyr.

## Canfyddiadau

### Cyfrifoldebau gofalu

Wrth sôn am y rhwystrau mwyaf arwyddocaol a oedd yn atal menywod rhag ymwneud â a gwneud cynnydd mewn gwleidyddiaeth, cafodd gofal plant di-dâl a chyfrifoldebau gofalu ehangach eu crybwyll yn gyson ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol a oedd yn rhan o'r gwaith ymchwil. Tro ar ôl tro, disgrifiodd menywod eu bod yn cael eu gorfodi i ohirio eu huchelgeisiau gwleidyddol am iddyn nhw fethu â chael cydbwysedd realistig rhwng gofalu am blant ifanc, neu am berthnasau hŷn ambell dro, a gofynion gwaith gwleidyddol. I'r mwyafrif, hyd yn oed y rhai â phartneriaid cefnogol, roedd ceisio gwneud y ddau beth yn amhosibl, yn ariannol ac yn ymarferol, gyda menywod mewn aelwydydd unig riant yn wynebu heriau mwy fyth.

Pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd fod cyfrifoldebau gofal plant yn cyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan uniongyrchol, ac eu bod hefyd yn creu pwysau logistaidd, emosiynol ac ariannol sylweddol a oedd yn aml yn eu gorfodi i ohirio gyrfaoedd gwleidyddol am flynyddoedd. Dywedodd rhai eu bod wedi aros nes bod eu plant yn eu harddegau neu'n fwy annibynnol cyn ail-gydio yn eu bywydau gwleidyddol.

Eglurodd un fenyw:

**"Roedd fy mhlant yn ifanc iawn o hyd, ac ni weithiais am saith mlynedd. Allwn i ddim sefyll am etholiad nes eu bod nhw'n hŷn—dyma'r unig ffordd y gallwn ymdopi."**

Dywedodd un cyfranogwr:

**"Pan wnes i sefyll i gael fy newis fel ymgeisydd am y tro cyntaf, roeddwn i'n teimlo'n ddrwg am beidio â bod gyda fy mhlant ac am beidio â gallu rhoi gofal iawn i fy mam"**

Fe wnaeth y cyfranogwyr hefyd ddisgrifio yr effaith bersonol a phroffesiynol ehangach a gafodd y disgwyliadau hyn. Siaradodd menywod am y pwysau arnynt i ymrwymo i'w swyddi gwleidyddol yn llwyr, gyda rhai yn disgrifio disgwyliad o 'ymrwymiad 24 awr.' Soniodd un fenyw am orfod rhoi'r gorau i'w swydd pan oedd hi'n cystadlu am sedd y gallai'r blaid ei hennill:

**"Roedd yn rhaid i rywbeth ildio... Roeddwn i mewn sefyllfa ddigon ffodus i allu rhoi'r gorau i waith, ond roedd pethau'n anodd yn ariannol am dipyn wedyn."**

Wrth fyfyrio ar y straen emosiynol, dywedodd un arall:

**"Yr unig un ar ei golled yn hynny i gyd oedd fi, oherwydd doeddwn i ddim yn treulio'r amser gyda fy nheulu fel y byddwn wedi hoffi—dyna beth rwy'n ei olygu pan fyddwch chi'n siarad am aberth."**

Disgrifiodd sawl menyw brofiadau o ragfarn, yn amlwg ac yn ymhlyg, ynghylch eu cyfrifoldebau gofalu yn ystod prosesau dewis ymgeiswyr. Roedd un cyfwelydd yn cofio sefyll i gael ei dewis pan oedd hi'n feichiog, a gorfod ateb cwestiynau ymwthiol am famolaeth yn hytrach nac am ei chymwysterau:

**"Ar y pryd, roedd y cwestiynau a ofynnwyd i mi yn ymwneud â bod yn fam a gwraig yn y dyfodol, nid fy nghymwysterau."**

Ar ôl peidio â chael ei dewis, disgrifiodd un cyfranogwr negeseuon a gafodd a oedd yn awgrymu bod y canlyniad yn well iddi hi, gan y byddai'n caniatáu iddi "fod yn fam dda", ac i fod yn "fwy presennol" ym mywyd ei phlentyn, tra bod ymgeisydd gwrywaidd gyda llawer llai o brofiad ymgyrchu ac yn y parti wedi cael ei ddewis yn ei lle.

Clywyd llawer o sôn am y baich emosiynol sy'n gysylltiedig â chydbwyso cyfrifoldebau gofalu ac uchelgais wleidyddol. Disgrifiodd menywod straen, euogrwydd a hunan-amheuaeth, wedi'i waethygu gan graffu gan gyfoedion a diffyg polisïau absenoldeb ffurfiol. Soniodd rhai am fewnoli'r disgwyliadau hyn, gydag un yn cofio i eraill ddweud wrthi ei bod hi'n "iawn iddi beidio â chael y sedd" oherwydd bod ganddi blant ifanc—sylwadau a oedd, yn ei barn hi, yn dorcalonnus ac yn arwydd o ddiwylliant sy'n parhau i esgusodi allgáu menywod.

Roedd cyfrifoldebau gofalu yn ymestyn y tu hwnt i ofal plant. Disgrifiodd un cyfwelydd, sydd bellach mewn swydd wleidyddol uwch, sut roedd straen gofalu yn cronni yn ystod ei gyrfa, gan egluro y byddai sefyll ar gyfer etholiad wedi bod yn 'amhosibl' wrth reoli ymrwymiadau teuluol dwys. Fel gofalwr di-dâl i berthynas hŷn, roedd cydbwyso'r cyfrifoldebau hyn â swydd wleidyddol uwch yn parhau i fod yn heriol, a nododd:

**"Mae'n swydd mor gystadleuol... Mae pobl yn codi ael pan na allwch chi gyflawni ymrwymiadau."**

Dywedodd menywod ar draws pob plaid nad oedd cymorth strwythurol diriaethol i gyd-fynd â gwelliannau, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, megis diwylliannau mwy cefnogol o fewn y Senedd a mwy o hyblygrwydd trwy weithio o bell. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn rhoi pwyslais cyson ar ddiffyg parhaus darpariaeth gofal plant ffurfiol, gan gynnwys cyfleusterau crèche ar y safle. O ganlyniad, disgrifiodd y rhan fwyaf o fenywod eu bod yn gorfod creu neu ddibynnu ar rwydweithiau cymorth anffurfiol er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau gwleidyddol.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos patrwm clir ar draws y pleidiau: mae cyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn rhwystr strwythurol sylweddol i fenywod sy'n eu hatal rhag cyfrannu, rhag mynd i swyddi uwch, a rhag aros mewn gwleidyddiaeth. Heb atebion systemig, gan gynnwys cymorth gofal plant ffurfiol a chydnabyddiaeth o gyfrifoldebau gofalu ehangach, bydd menywod yn parhau i wynebu heriau anghymesur sy'n eu hatal rhag dechrau a datblygu gyrfaoedd gwleidyddol.

### Argymhellion

- **Darparu cymorth gofal plant** gan gynnwys cyfleusterau meithrinfa ar y safle mewn digwyddiadau plaid, sesiynau hyfforddi ymgeiswyr, a chyfarfodydd.
- **Cynnig bwrsariaethau** i dalu costau gofal plant a chyfrifoldebau gofal di-dâl eraill wrth ymgyrchu.
- **Ehangu trefniadau gweithio hyblyg**, megis cyfranogiad o bell ac amserlennu addasadwy.
- **Annog rhannu swyddi a rolau rhan-amser** o fewn swyddi plaid.

### Aflonyddu a bwlio

Roedd bwlio ac aflonyddu, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol ac wrth ryngweithio â chydweithwyr, yn cael ei grybwyll yn gyson fel rhwystr rhag datblygiad gyrfa a chyfranogiad gwleidyddol menywod ar draws holl brif bleidiau Cymru. Er nad oedd pawb wedi cael profiad personol o aflonyddu, roedd llawer wedi sylwi ar achosion lle cafodd cwynion eu cam-drafod, gan greu diwylliant o ansicrwydd. Fwy nag unwaith, disgrifiwyd bod gweithdrefnau adrodd a rheoli yn aneglur neu'n anghyson, gan adael aelodau'n ansicr ynghylch sut i uwchgyfeirio digwyddiadau. Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd:

**"Nid yw pobl yn gwybod beth yw'r broses. Rydw i wedi adnabod rhai pobl a fu'n destun aflonyddu ond wedi penderfynu peidio â mynd â'r peth ymhellach am eu bod yn nyddiau cynnar neu ganol eu gyrfaoedd ac y bydd yn niweidiol."**

Yn aml, nid oedd polisïau atal dros dro ar gyfer unigolion dan ymchwiliad yn ddigonol, ac roedd hynny yn tanseilio atebolrwydd ac o bosibl yn peryglu dioddefwyr ymhellach. Dywedodd cyfranogwr arall:

**"Mae pobl a ddylai fod wedi cael eu hatal dros dro yn dal i fod yn y blaid ac yn gwneud pethau fel arfer... bydd eu hatal yn atal eu pleidlais, a swyddogaethau eraill, yn enwedig er diogelwch pobl eraill y maent yn ymwneud â nhw ac yn gweithio gyda nhw."**

Amlygodd nifer o'r cyfweledigion ddiffyg llwyr o ran prosesau addas ac amddiffyniad i staff sy'n gweithio yn swyddfeydd aelodau'r Senedd, mewn swyddi sy'n cael eu hystyried yn aml yn gamau allweddol mewn gyrfaoedd gwleidyddol.

Pwysleisiwyd dro ar ôl tro bod aflonyddu ar y cyfryngau cymdeithasol yn straen mawr, yn enwedig i fenywod iau a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd menywod eu bod wedi wynebu ymosodiadau personol ynghylch eu hymddangosiad, gydag ychydig iawn o ganllawiau wedi'u targedu. Dywedodd un cyfranogwr:

**"Dylai fod rhywbeth ar gael i fenywod iau o ran bwlio ac aflonyddu, yn benodol ar y cyfryngau cymdeithasol."**

Mae profiadau o aflonyddu yn aml yn gorfodi menywod i addasu eu gweithgareddau ar-lein, gyda rhai yn ymatal rhag postio yn gyfan gwbl. Nododd rhai fod misogynedd ar-lein, cam-drin ar sail ymddangosiad, a diffyg cymorth sefydliadol yn golygu bod angen i ddefnyddio strategaethau ymdopi personol, megis blocio neu dawelu cyfrifon, gydag un cyfranogwr yn egluro nad oedd hi'n gwybod ble dylai fynd gyda hyn. Dywedodd un cyfranogwr o gefndir ethnig leiafrifol ei bod wedi gorfod penderfynu ymatal rhag postio ar gyfryngau cymdeithasol yn gyfan gwbl.

Dywedodd cyfwelwyr bod y mecanweithiau cymorth sy'n bodoli, megis mecanweithiau adrodd canolog a chanllawiau gan y tîm cyfryngau ar gyfer aflonyddu ar-lein, yn fesurau adweithiol i raddau helaeth.

Dywedodd cyfranogwyr bod ymatebion y pleidiau'n amrywio yn ôl ffynhonnell y gŵyn, ac nad oedd pob aelod yn teimlo wedi'i baratoi i reoli digwyddiadau, yn enwedig y rhai heb brofiad blaenorol o ddelio ag ymddygiad anodd yn y gweithle. Disgrifiodd rhai welliannau sy'n gysylltiedig â mentrau wedi'u targedu ac ymrwymiad cryfach gan yr arweinyddiaeth i fabwysiadu dull dim goddefgarwch. Fodd bynnag, roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn pwysleisio bod rhaid rhoi hyfforddiant i holl swyddogion y blaid sy'n delio â chwynion, er mwyn sicrhau safonau cyson ac atal methiannau yn y dyfodol.

Mae gwaith ymchwil ehangach a thystiolaeth bolisi yn cefnogi'r profiadau hyn. Mae astudiaethau yn dangos bod aflonyddu, ar-lein neu ddim, yn atal menywod rhag

cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol ac yn tanseilio hyder mewn rolau cyhoeddus.[1]

Mae menywod o gefndiroedd lleiafrifol a menywod iau yn wynebu mwy o fregusrwydd, a gall cam-drin parhaus yrru pobl i dynnu'n ôl o ddadleuon gwleidyddol neu i ddatgysylltu o fywyd cyhoeddus yn llwyr.[2] Er bod rhai partïon yn darparu mecanweithiau adrodd a chanllawiau adweithiol, mae'r mesurau hyn yn aml â diffyg cysondeb, cefnogaeth rhagweithiol, ac eglurder, gan adael menywod dan feichiau seicolegol a phroffesiynol sylweddol.[3]

Ar draws pob plaid, roedd y rhai a gyfwelwyd yn cysylltu absenoldeb neu anghysondeb gweithdrefnau ffurfiol â rhwystrau strwythurol ehangach. Roedden nhw'n meddwl y bod ymddygiadau cynnil, allgáu anffurfiol, ac agweddau diystyriol yn dal i allu siapio ymgysylltiad a hyder menywod, hyd yn oed yng nghyd-destun gwell systemau adrodd. Disgrifiodd un cyfranogwr ddiwylliant eu plaid fel 'clwb bechgyn' lle 'mae disgwyl i ddynion siarad.' Yn gyffredinol, roedd y menywod yn pwysleisio'r angen am ymrwymiad barhaus gan arweinyddiaeth, gwaith monitro rhagweithiol, hyfforddiant cynhwysfawr, a mecanweithiau hygyrch i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu.

### Argymhellion

- Gweithredu **gweithdrefnau adrodd clir, hygyrch ac annibynnol** gyda chanllawiau tryloyw i aelodau a staff a chynnwys polisïau atal priodol yn ystod ymchwiliadau i amddiffyn dioddefwyr a chynnal amgylchedd diogel. Dylai hyn ymestyn i staff sy'n gweithio yn swyddfeydd yr aelodau Seneddol.
- Cymryd **safiad cyhoeddus a mewnol cryf** yn erbyn aflonyddu, gan gondemnio bygythiadau neu drais tuag at ymgeiswyr yn agored, yn enwedig ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

1 Ofcom, *Experiences of online hate and abuse among women in politics* (2025) https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/online-safety/research-statistics-and-data/online-abuse/experiences-of-online-hate-and-abuse-among-women-in-politics.pdf?v=400053; ERS Cymru, *Lleisiau Newydd: Sut y gall gwleidyddiaeth Cymru ddechrau adlewyrchu Cymru* (2018) https://electoral-reform.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Lleisiau-Newydd.pdf

2 Centenary Action, End harassment and abuse for women in politics – briefing (2024) https://centenaryaction.org.uk/wp-content/uploads/2024/05/End-Harassment-and-Abuse-Briefing.pdf; Harmer E and Southern R, Online Abuse and Discrimination in British politics: Women's experiences and mitigation strategies (University of Liverpool, 2024) https://www.liverpool.ac.uk/communication-and-media/research/groups/research-projects/online-abuse-and-discrimination-in-british-politics/

3 CPA UK, A Guide to Addressing Online Abuse (2021) https://www.uk-cpa.org/media/4282/cpa-uk-guide-to-addressing-online-abuse.pdf

- Darparu **cymorth i ymgeiswyr yr effeithir arnynt**, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cymorth gyda ffeilio adroddiadau'r heddlu, a chael at gwnsela neu gymorth cymheiriaid.
- Cynnig **hyfforddiant ar ddiogelwch personol ac ar-lein** i ddarpar ymgeiswyr.
- Cyflwyno **hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-wahaniaethu** i'r holl staff, aelodau a gwirfoddolwyr, yn enwedig y rhai sy'n delio â chwynion.

### Rhwystrau ariannol

Roedd rhwystrau ariannol yn cael eu crybwyll yn gyson fel her sylweddol i fenywod, gan gynnwys y rhai o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, wrth ystyried swyddi gwleidyddol ledled Cymru. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol ymgyrchu, costau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau gofal di-dâl, gofynion hygyrchedd, mesurau diogelwch, a threuliau eraill sy'n aml yn cael eu hanwybyddu. Mae tystiolaeth yn amlygu’r ffaith bod y rhwystrau yn atal unigolion rhag sefyll etholiad, a’u bod hefyd yn atgyfnerthu anghydraddoldebau strwythurol mewn cynrychiolaeth wleidyddol.[4]

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd y gall costau sefyll fel ymgeisydd neu gymryd rhan lawn mewn swyddi pleidiau fod yn waharddol, yn enwedig i'r rhai sy'n ceisio cydbwyso gwaith cyflogedig a chyfrifoldebau gofalu.

Dywedodd un cyfranogwr:

**"Mae’n cael effaith anghymesur ar fenywod gan mai ni sy’n dal i ddelio â'r rhan fwyaf o'r pethau teuluol a’r cyfrifoldebau domestig."**

Myfyriodd cyfranogwr arall ar heriau cydbwyso gwaith cyflogedig ag ymrwymiadau gwleidyddol, gan nodi, hyd yn oed wrth weithio'n rhan-amser, fod disgwyl iddynt fynd i holl gyfarfodydd y blaid. Awgrymodd rhai y byddai arian pwrpasol ar gyfer ymgeiswyr, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, wedi gwneud gwahaniaeth go iawn.

4 Senedd Cymru Y Pwyllgor Biliau Diwygio Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Adroddiad Cyfnod 1 (Senedd Cymru, 2023) para 431 https://senedd.cymru/media/z1nd5mh4/cr-ld16518-w.pdf wedi’i gyrchu ar 26 Tachwedd 2025.

Roedd ymwybyddiaeth o gyfleoedd ariannu o fewn y blaid yn anghyson, roedd rhai o’r menywod yn gwybod am fwrsariaethau cyfyngedig a chymorth i ymgeiswyr, ond nad oedd eraill yn gwybod amdanynt o gwbl, gan dynnu sylw at fynediad a chyfathrebu anghyson. Mae'r wybodaeth yma yn pwysleisio bod rhwystrau ariannol yn rhwystr sylweddol o hyd i fenywod, yn enwedig i'r rhai sy'n cydbwyso cyfrifoldebau gofalu a/neu cyflogaeth.

Fe wnaeth rhai ddisgrifio’r baich ariannol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, gan ddweud mai dim ond hyn a hyn o gyllid a geid gan y blaid ganolog, ac roedd ymgeiswyr yn aml yn dibynnu ar adnoddau personol neu gymwynaswyr preifat. Gallai hyd yn oed man dreuliau a ysgwydda’r ymgeisydd, e.e. costau petrol neu gostau digwyddiadau lleol, greu straen ariannol sylweddol, gydag un cyfranogwr yn dweud:

**"Mae bod yn ymgeisydd yn costio cryn dipyn... rydych chi'n talu am eich petrol eich hun, a gall costau mynychu digwyddiadau fel sioeau’r haf gronni."**

Soniwyd am anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn prosesau dethol hefyd, a dywedodd un cyfranogwr:

**"Mae rhai ymgeiswyr yn cael eu dewis ar y sail y gallant ddod ag arian i'r ymgyrch."**

Awgrymodd nifer o’r rhai a gyfwelwyd y byddai mwy o dryloywder ynghylch disgwyliadau ariannol a mecanweithiau cymorth tecach yn helpu i leihau'r rhwystrau hyn, gydag un yn argymell:

**"Byddai'n ddefnyddiol pe bai pleidiau yn glir iawn ynglŷn â beth yw’r disgwyliadau ariannol gan ymgeiswyr posibl ar y dechrau."**

Tynnodd cyfranogwyr sylw at heriau ariannol hefyd. Yn ystadegol, mae menywod yn fwy tebygol o weithio swyddi is â llai o gyflog, sy'n aml yn cynnig llai o hyblygrwydd yn ystod cyfnodau ymgyrchu.

Yn ôl cyfranogwyr, mae hyn wedi arwain at orfod cymryd gwyliau di-dâl, ysgwyddo dyledion personol, a chydbwyso gwaith llawn amser ochr yn ochr â gweithgareddau ymgyrchu.

Pwysleisiodd cyfranogwyr ar draws pob plaid mai'r rhai sydd â chyfoeth personol neu rwydweithiau allanol sy'n tueddu i allu ymwneud â gwleidyddiaeth, os na roddir cefnogaeth ariannol wedi'i dargedu, a bod hynny yn atgyfnerthu anghydraddoldeb strwythurol wrth ddewis ymgeiswyr ac mewn cynrychiolaeth.

Nid oes gan lawer o ymgeiswyr posibl gynilion personol, mae ganddyn nhw incwm is, a mynediad cyfyngedig at rwydweithiau codi arian. Mae costau ychwanegol yn cael effaith anghymesur ar fenywod, gan gynnwys costau gofal plant a chyfrifoldebau gofal di-dâl, treuliau sy'n gysylltiedig â diogelwch, a hyd yn oed costau sy'n gysylltiedig â bodloni'r disgwyliadau uwch ar ymddangosiad corfforol menywod.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Senedd yn cadarnhau y gall costau ymgyrchu fod yn sylweddol, a gall menywod wario hyd at £1,000 ar ymgyrchoedd llywodraeth leol, a mwy ar gyfer etholiadau'r Senedd o ganlyniad i'r etholaethau mwy a'r cyfnodau ymgyrchu hirach.[5] Mae costau'n cynnwys gwariant personol, megis dillad, technoleg sy'n berthnasol i ymgyrchoedd, a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch, pethau sydd ddim yn cael eu had-dalu gan bleidiau bob tro. Mae cyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys gofal plant, yn aml yn cael eu trin fel costau preifat yn hytrach na chostau ymgyrchu, gan roi menywod a gofalwyr dan anfantais arall.[6]

Mae rhwystrau ariannol yn parhau i fod yn atalfa strwythurol mawr rhag cyfrannu mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru. Heb ymyrraeth, mae'r rhwystrau hyn yn parhau i gyfyngu'r ymgeiswyr i'r rhai sydd â chyfoeth personol neu fynediad at rwydweithiau, gan danseilio amrywiaeth, cynhwysiant a chyfreithlondeb democrataidd.

### Argymhellion

- **Sicrhau tryloywder** ynghylch yr ymrwymiadau ariannol disgwyliedig ar gyfer ymgeiswyr a chostau ymgyrchu disgwyliedig.

5 Ibid

6 Ibid

- **Darparu cymorth ariannol**, gan gynnwys bwrsariaethau neu grantiau, gan gynnwys ar gyfer gofal plant, costau sy'n gysylltiedig â mynediad i ymgeiswyr anabl, mesurau diogelwch, a deunyddiau ymgyrchu.
- **Egluro eithriadau o derfynau gwariant ymgyrchu** ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â diogelwch a mynediad.
- Darparu hyfforddiant a chymorth ar **strategaethau codi arian a hwyluso cysylltiadau** rhwng ymgeiswyr heb gynrychiolaeth ddigonol a darpar roddwyr.
- Datblygu **strategaeth cymorth ariannol gynhwysol**, gan gynnwys ad-dalu amserol a lleihau costau ymlaen llaw.

### Mentora a hyfforddiant

Pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd fod cael arweiniad a mentora yn hanfodol i fenywod sy'n ceisio cymryd rhan effeithiol mewn bywyd gwleidyddol ledled Cymru. Amlygodd y cyfranogwyr bwysigrwydd mentora a chefnogaeth ffurfiol cyn ac ar ôl y broses o ddewis ymgeiswyr. Er bod llawer yn cydnabod dyhead eu plaid i fod yn groesawgar a chynhwysol, dywedodd sawl un y gall strwythur ehangach y blaid deimlo'n anhygyrch, yn enwedig i aelodau newydd nad ydynt efallai wedi sefydlu rhwydweithiau.

Dywedodd un cyfranogwr:

> **"Heb ymdrechion bwriadol i gynnwys newydd-ddyfodiaid, gall unigolion deimlo eu bod wedi'u heithrio a'u gadael i ddibynnu ar eu menter eu hunain, a all fod yn frawychus."**

Soniodd nifer o gyfranogwyr yn gadarnhaol iawn am y cyfleoedd hyfforddi ffurfiol a'r cynghreiriaid a'r mentoriaid anffurfiol yr oeddent yn gallu dibynnu arnynt yn ystod eu taith. Fodd bynnag, nododd rhai y gallai cyfleoedd hyfforddi fod yn gyfyngedig o ran cyrhaeddiad ac nad ydynt bob amser yn ymarferol wrth baratoi ymgeiswyr ar gyfer realiti ymgyrchu a dethol. Er bod llawer o gyfranogwyr wedi dod o hyd i arweiniad ac undod mewn rhwydweithiau cymorth anffurfiol ac yn eu perthynas â chymheiriaid, roedd nifer yn teimlo bod diffyg mentora strwythuredig, a hynny cyn ac ar ôl y broses o ddewis ymgeiswyr. Dywedodd rhai nad oedd unrhyw ganllawiau ffurfiol na fframwaith mentora ar waith, gydag un fenyw yn nodi'n syml, ***"Dydyn ni ddim yn cael unrhyw gefnogaeth."*** Dywedodd un arall fod llawer o strwythur y blaid yn dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr, a oedd â gallu cyfyngedig i ddarparu hyfforddiant cyson neu gefnogaeth i ddarpar ymgeiswyr.

Roedd llawer o fenywod yn cysylltu eu diffyg mynediad at fentora ac arweiniad â lefelau hyder is. Awgrymodd rhai, pe baent wedi cael cefnogaeth mewn ffordd fwy strwythuredig, ffurfiol ac yn gynharach, cyn y broses dethol ymgeiswyr a thrwy gydol eu hymgeisyddiaeth, y byddai wedi eu helpu i adeiladu hyder a goresgyn teimladau o syndrom y ffugiwr.

Disgrifiodd nifer o fenywod eu bod yn teimlo'n ynysig yn gynnar yn eu swyddi, gan nodi, er bod mentoriaid wedi'u dyrannu, fod ansawdd a hygyrchedd y gefnogaeth yn amrywio'n fawr.

Dywedodd un cyfranogwr: ***"Rydych chi ar eich pen eich hun braidd, a gall deimlo'n anodd ar y dechrau,"*** tra dywedodd un arall: ***"Nid yw'n hawdd cysylltu â phob mentor,"*** ac mae hyn yn dangos pa mor anghyson yw'r gefnogaeth ar draws y blaid. Disgrifiodd eraill y misoedd cynnar fel rhai dryslyd ac ynysig, gydag un fenyw'n esbonio ei bod:

**"wedi cymryd bron i ddwy flynedd i wir deimlo'n sefydlog ac yn hyderus yn y swydd."**

Er bod rhai cyfranogwyr yn nodi bod hyfforddiant ffurfiol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd llawer yn dal i deimlo nad oedd ***"dim strwythur clir"*** neu fod cefnogaeth ***"yn dibynnu ar bwy yw eich mentor."***

Dywedodd sawl un hefyd fod rhai cynghorwyr gwrywaidd yn ymddangos yn ***"naturiol yn fwy hyderus,"*** a hynny'n aml oherwydd profiad hirach a rhwydweithiau sefydledig, a amlygodd ymhellach fod angen mentora cyson ar fenywod ac aelodau mwy newydd.

Roedd y menywod y cyfwelwyd â hwy'n cysylltu absenoldeb mentora strwythuredig â theimladau o ansicrwydd a syndrom y ffugiwr, yn enwedig ymhlith y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dywedodd un cyfranogwr:

**"Pe bawn i wedi cael mwy o gefnogaeth ffurfiol o'r dechrau, byddai wedi fy helpu i oresgyn y diffyg hyder hwnnw."**

Awgrymodd y byddai mentora cynharach a mwy ffurfiol, ochr yn ochr â hyfforddiant wedi'i dargedu, yn helpu ymgeiswyr newydd a chynrychiolwyr etholedig i fagu hyder, cryfhau eu sgiliau, ac addasu'n fwy effeithiol i fywyd gwleidyddol.

Dywedodd un cyfranogwr y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael eich mentora yn hytrach na bod yn fentor eich hun bob amser, gan nodi'r gwerth o gael eich cysylltu ag uwch aelodau. Awgrymodd eraill y byddai ymgeiswyr newydd yn elwa ar dempledi cliriach a chanllawiau ar ymgyrchu, gyda phwyslais arbennig ar yr angen am gefnogaeth wedi'i thargedu i fenywod o gefndiroedd Du ac ethnig lleiafrifol.

Roedd gan nifer o gyfranwyr bethau cadarnhaol i'w ddweud am fentrau a oedd yn rhoi cefnogaeth wedi'i dargedu i fenywod, ond roedd heriau ariannu yn cyfyngu ar effaith y rhaglenni hyn yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn cysylltu absenoldeb mentora ac arweiniad strwythuredig â lefelau hyder is ac ansicrwydd ynghylch ymdrin â phrosesau gwleidyddol. Awgrymwyd y byddai cael gafael ar gymorth a chyngor cynnar, ffurfiol yn helpu darpar ymgeiswyr i fagu hyder, datblygu sgiliau ymgyrchu, a theimlo'n fwy parod i ymgymryd â rolau gwleidyddol.

### Argymhellion

- Darparu **mentora, cysgodi a hyfforddiant strwythuredig** ar gyfer ymgeiswyr newydd. Dylai rhaglenni fod ag amcanion clir, prosesau cadw llygad rheolaidd, a pharu meddylgar mentoriaid a mentoreion.
- **Cryfhau cefnogaeth cymheiriaid** trwy gynlluniau cyfeillio, rhwydweithiau, neu fforymau ar-lein, dan arweiniad unigolion profiadol ac wedi'u cefnogi gan eich plaid. Sicrhau bod mentrau cymheiriaid yn cael adnoddau priodol.
- Sicrhau bod cyfleoedd mentora, cefnogi cymheiriaid a hyfforddi **ar gael yn eang** ac yn cael eu **hysbysebu'n glir**.

### Rhwystrau rhyngblethol

Roedd pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn parhau i wynebu rhwystrau ychwanegol a chymhleth wrth geisio cymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol yng Nghymru. Pwysleisiodd y cyfwelwyr fod y rhwystrau hyn yn aml yn rhyngblethu â hil, statws ymfudo, rhywioldeb, anabledd, ac oedran, gan greu anfanteision haenog sydd ddim yn cael digon o ystyriaeth gan fecanweithiau presennol y blaid neu'r Senedd. Cyfeiriodd un cyfranogwr at yr her hon yn uniongyrchol, gan egluro:

**"Rydych chi eisoes yn ymladd brwydr anodd pan fyddwch chi'n un o leiafrif sy'n mynd am swydd wleidyddol,"**

a mynegodd siom nad oedd y Senedd na'r pleidiau gwleidyddol yn cymryd camau digonol i ddarparu cefnogaeth, amddiffyniad neu gyngor wedi'u targedu i ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, yn enwedig mewn hinsawdd wleidyddol o elyniaeth a gwahaniaethu cynyddol.

Roedd profiadau o ansicrwydd ynghylch statws mewnfudo a chyfranogiad gwleidyddol yn amlygu rhwystrau strwythurol pellach. Rhannodd cyfranogwr arall, sef mewnfudwr ar fisa gwaith medrus, ei hansicrwydd ynghylch a oedd hyd yn oed hawl ganddi ymuno â phlaid wleidyddol. Eglurodd bod:

**"Llawer ohonom ar fisa tebyg yn ceisio bod yn ofalus iawn a pheidio â bod yn rhan o wleidyddiaeth rhag ofn i'n fisa gael ei ddiddymu,"**

gan ddangos y diffyg gwybodaeth hygyrch, glir i gymunedau mudol am eu hawliau i gymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol. Gallai'r ansicrwydd hwn eithrio grwpiau cyfan rhag dilyn llwybrau cynnar at fywyd gwleidyddol, a hynny nid oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol ond oherwydd ofn ac absenoldeb canllawiau awdurdodol.

Daeth materion rhyngblethol i'r amlwg hefyd mewn perthynas â rhywioldeb, hunaniaeth a disgwyliadau cymdeithasol. Disgrifiodd un cyfranogwr ei phryder ynghylch datgelu ei rhywioldeb neu ddim yn ystod ei hymgyrch, gan ddweud:

**"Doeddwn i ddim yn siŵr ble i dynnu'r llinell ynglŷn â bod yn agored am fy rhywioldeb ar y llwyfan etholiad. Roedd fy rhywioldeb yn gwneud i mi gwestiynu a fyddwn i'n cael pleidleisiau ai peidio."**

Mae'r myfyrdodau hyn yn tanlinellu sut y gall ymgeiswyr o gefndiroedd LHDTC+ deimlo pwysau i guddio agweddau ar eu hunaniaeth gan eu bod yn ofni ymateb yr etholwyr neu ragfarn gymunedol, gan ychwanegu baich emosiynol a strategol pellach at broses sydd eisoes yn heriol.

Cafodd oedran ac anabledd eu crybwyll fel ffactorau sy'n cymhlethu hefyd. Disgrifiodd un fenyw sut roedd sylwadau am ei hoedran yn rhyngblethu â'i chyflwr iechyd, gan waethygu ei theimladau o gael ei hynysu a'i hallgáu. Mae hyn yn dangos

sut, gyda'i gilydd, y gall agweddau gwahaniaethol cynnil gael effeithiau sylweddol dros amser.

Soniodd eraill a gyfwelwyd am yr allgáu sy'n digwydd hyd yn oed o fewn mannau amrywiaeth a chynhwysiant, lle roedd rhai hunaniaethau neu leisiau yn ymddangos yn flaenllaw iawn, gan adael eraill yn teimlo'n ymylol neu heb eu clywed.

Ar draws y cyfrifon hyn, pwysleisiodd menywod fod rhyngblethedd yn siapio pwy oedd yn teimlo y gallent ymgeisio am swydd wleidyddol, yn ogystal â phwy oedd yn teimlo'n ddiogel ac â digon o gefnogaeth a hyder i barhau i ymgysylltu. Mae'r wybodaeth yma yn tynnu sylw at yr angen i bleidiau gwleidyddol a sefydliadau fabwysiadu dulliau rhyngblethol mwy penodol pan ddaw at amrywiaeth, gan sicrhau bod canllawiau, amddiffyniadau a chyfleoedd yn bodloni anghenion ymgeiswyr a allai wynebu sawl gwahanol fath o wahaniaethu, neu wahaniaethu sy'n gorgyffwrdd, oherwydd eu hunaniaeth.

### Argymhellion

- **Ymgorffori rhyngblethedd yn holl bolisïau, hyfforddiant a rhaglenni cymorth y blaid** i sicrhau bod rhwystrau sy'n gorgyffwrdd yn cael eu cydnabod a'u datrys.
- Darparu **cyfleoedd allgymorth, mentora a datblygu wedi'u targedu at fenywod** o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gyda deunyddiau a chymorth hygyrch wedi'u teilwra.
- Cynnig gwybodaeth eglur, hygyrch ar gymhwysedd a hawliau gwleidyddol, gan gynnwys canllawiau i **ymfudwyr a phobl ar fisâu gwaith**.
- **Creu mannau diogel ag adnoddau da i aelodau sydd wedi'u tangynrychioli allu codi materion a chael mynediad at gymorth.**
- **Cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar ryngblethedd, bias, ac arferion cynhwysol** ar gyfer staff pleidiau, gwirfoddolwyr, aelodau etholedig, a phaneli dewis.
- Sicrhau bod mentrau amrywiaeth a chynhwysiant yn **wirioneddol hygyrch** trwy ehangu cyfranogiad a chylchdroi swyddi arweiniol i osgoi allgáu anffurfiol.

## Casgliad

Mae cymryd camau prydlon ac ystyrlon yn bwysig er mwyn sicrhau cynrychiolaeth fwy cynhwysol ac amrywiol yn nemocratiaeth Cymru. Mae'r dystiolaeth o'n cyfweliadau yn dangos bod camau cadarnhaol yn cael eu gwneud, ond bod cyfrifoldebau gofalu,

pwysau ariannol, mentora a hyfforddiant cyfyngedig, aflonyddu a bwlio, a mathau rhyngblethol o wahaniaethu yn parhau i rwystro pobl rhag cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Mae'r rhwystrau hyn yn atal ymgeiswyr posibl yn ogystal â thanseilio dilysrwydd sefydliadau democrataidd.

Mae gan bleidiau gwleidyddol ran mawr i'w chwarae wrth yrru newid. Trwy adeiladu ar fentrau presennol, darparu cefnogaeth gryfach i ymgeiswyr, sicrhau prosesau tryloyw, mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu, ac ymgorffori rhyngblethedd ar draws pob polisi, gallant greu diwylliant gwleidyddol lle mae menywod a grwpiau wedi'u tangynrychioli yn cymryd rhan lawn, yn ddiogel ac yn hyderus.

Mae'r Pecyn Cymorth Cynrychiolaeth Amrywiol a Chyfartal a ddatblygwyd gan RhCM Cymru a 5050Amrywiol yn darparu canllawiau ymarferol i helpu pleidiau i gymryd y camau hyn, gan gefnogi system wleidyddol sy'n well adlewyrchiad o wir amrywiaeth Cymru.

## Cydnabyddiaethau

Rydym yn ddiolchgar i bob cyfranogwr a gymerodd yr amser a'r gofal i rannu eu profiad a gwneud y gwaith hwn yn bosibl.

### Wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Diwygio Joseph Rowntree

Mae Ymddiriedolaeth Diwygio Joseph Rowntree wedi cefnogi'r gwaith hwn i gydnabod pwysigrwydd y mater. Fodd bynnag, y ffeithiau a gyflwynir a'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw rhai'r awduron ac nid o reidrwydd rhai'r Ymddiriedolaeth.

## Ynglŷn â RhCM Cymru

Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd lle mae gan fenywod, dynion, a phobl anneuaidd awdurdod a chyfle cyfartal i lywio cymdeithas a'u bywydau eu hunain. Rydym yn gweithio gyda'n clymblaid fywiog o aelodau sefydliadol ac aelodau unigol i drawsnewid cymdeithas – ni all unrhyw un sefydliad sicrhau cydraddoldeb ar eu pen eu hunain. Mae ein gwaith yn eistedd o dan dair colofn. Byddwn yn cysylltu, ymgyrchu a dathlu menywod fel bod ein gweledigaeth yn cael ei gwireddu.

## Ynglŷn â 5050Amrywiol

Mae 5050Amrywiol yn glymblaid arobryn cynullwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ac sy'n cael ei harwain gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Cyngor Hil Cymru, EYST Wales (Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru), Age Cymru, Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, Gofalwyr Cymru a Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW). Ei nod yw sicrhau bod sefydliadau gwleidyddol Cymru yn gytbwys o ran rhywedd, gyda chynrychiolaeth ystyrlon gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac o gymunedau ymylol.

**I gael gwybod rhagor, cysylltwch ag:**

**Inioluwa Longe**
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru
Swyddog Polisi ac Ymchwil
Inioluwa@wenwales.org.uk

**Dr Jessica Laimann**
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru
Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
Jessica@wenwales.org.uk